

Emynau a Darlleniadau Hymns and Readings

Yr Trydydd Sul wedi'r Drindod

16 Mehefin 2024

Cymun Bendigaid ar Gân • tudalen 2

Gosber ar Gân • tudalen 16

Hysbys • tudalen 22


The Third Sunday after Trinity

16 June 2024

Choral Holy Eucharist • page 9

Choral Evensong • page 16

Notices • page 22




**Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor**

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



yn y Cymun



Gosodiad cerddorol

Cymun y Cymry ii, John Harper

Llywydd a Phregethwr

Y Canon dros Fywyd Cynulledifaol

Emyn Gorymdeithiol



Yr Arglwydd yw fy mugail i,
ac ni bydd eisiau arnaf.
Mewn porfa fras gorffwyso a gaf;
ger dyfroedd braf gorweddaf.

Mae yn f'adfywio yn ddi-frys
a'm tywys yn garuaidd.
Hyd ffyrdd cyfiawnder mae'n fy nwyn,
er mwyn ei enw sanctaidd.

Mewn dyffryn tywyll du ni chaf
nac anaf byth na dolur;
a thi o'm blaen, fe rydd dy ffon
a'th wialen dirion gysur.

Arlwyi fwrdd o'm blaen, a'm llu
gelynion i yn gwylio,
eneinio 'mhen ag olew glân.
Mae 'nghwpan yn gorlifo.

**Daioni a thrugaredd fydd
o'm hôl bob dydd o'm bywyd;
ar hyd fy oes mi fyddaf byw
yn nhŷ fy Nuw mewn gwynfyd.**

Geiriau

Salm 23

Efelychiad

Gwynn ap Gwilym (1950-2016)

Cerddoriaeth | "Dominus Regit Me"

John Bacchus Dykes (1823-1876)

Brawddeg

"Yr wyf yn dyheu am dy iachawdwriaeth, O Dduw, ac yn ymhyfrydu yn dy gyfraith."

Gweddi Gasgl

Gweddiwn.

O Dduw, erfyniwn fod i'th dosturi gwastadol lanhau ac amddiffyn dy Eglwys; a chan na all hi barhau mewn diogelwch heb dy nodded di, cadw hi byth trwy dy gymorth a'th ddaioni; trwy lesu Grist ein Gwaredwr.

Amen.

Salmyddiaeth



V Datgana'm genau d'air, fy Nuw; cyfiawnder yw dy ddeddfau.

R Datgana'm genau d'air, fy Nuw; cyfiawnder yw dy ddeddfau.

Doed fy llef atat, O Dduw; rho imi ddeall yn ôl dy air.

Doed fy neisfyd atat; gwared fi yn ôl dy addewid.

R Datgana'm genau d'air, fy Nuw; cyfiawnder yw dy ddeddfau.

Bydd fy ngwefusau'n tywallt moliant am iti ddysgu i mi dy ddeddfau.

Bydd fy nhafod yn canu am dy addewid, oherwydd y mae dy holl orchmynion yn gyfiawn.

R̄ Datgana'm genau d'air, fy Nuw; cyfiawnder yw dy ddeddfau.

Bydded dy law yn barod i'm cynorthwyo, oherwydd yr wyf wedi dewis dy ofynion.

Yr wyf yn dyheu am dy iachawdwriaeth, O Dduw, ac yn ymhyfrydu yn dy gyfraith.

R̄ Datgana'm genau d'air, fy Nuw; cyfiawnder yw dy ddeddfau.

Gad imi fyw i'th foliannu di, a bydded i'th farnau fy nghynorthwyo.

Euthum ar gyfeiliorn fel dafad ar goll; chwilia am dy bobl, oherwydd nid anghofiwn dy orchmynion.

R̄ Datgana'm genau d'air, fy Nuw; cyfiawnder yw dy ddeddfau.

Salm 119:169-176

Cerddoriaeth

Simon Ogdon

Darlleniad

Darlleniad o Lythyr yr Apostol Paul at yr Effesiaid.

Garedigion: Gan hynny, chwi oedd gynt yn Genhedloedd o ran y cnawd, chwi sydd yn cael eich galw yn ddiennwadedig gan y rhai a elwir yn enwadedig (ar gyfrif gwaith dwylo dynol ar y cnawd), chwi, meddaf, cofiwch eich bod yr amser hwnnw heb Grist, yn ddieithriad i ddinasyddiaeth Israel, yn estroniaid i'r cyfamodau a'u haddewid, heb obaith a heb Dduw yn y byd. Ond yn awr, yng Nghrist Iesu, yr ydych chi, a fu unwaith ymhell, wedi eich dwyn yn agos trwy waed Crist. Oherwydd ef yw ein heddwch ni. Gwnaeth y ddau, yr Iddewon a'r Cenhedloedd, yn un, wedi chwalu trwy ei gnawd ei hun y canolfur o elyniaeth oedd yn eu gwahanu. Dirymodd y Gyfraith, a'i gorchmynion a'i hordeiniadau. Ac felly, i wneud heddwch, creodd o'r ddau un ddynoliaeth newydd ynddo ef ei hun, er mwyn cymodi'r ddau â Duw, mewn un corff, trwy'r groes; trwyddi hi fe laddodd yr elyniaeth. Fe ddaeth, a

phregethu heddwch i chwi y rhai pell, a heddwch hefyd i'r rhai agos. Oherwydd trwyddo ef y mae gennym ni ein dau ffordd i ddod, mewn un Ysbryd, at y Tad.

Clywch air bywyd i'n byd.

Diolch a fo i Dduw.

Effesiaid 2:11-18

Efengyl



Y Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. R̄ Haleliwia. Haleliwia.

Haleliwia. Y Yn awr, yng Nghrist lesu, yr ydych chwi, a fu

unwaith ymhell, wedi eich dwyn yn agos trwy waed Crist. R̄

Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. Y Bydd mwy o lawenydd yn

y nef am un pechadur sy'n edifarhau nag am naw deg a naw

o rai cyfiawn nad oes arnynt angen edifeirwch. R̄ **Haleliwia.**

Haleliwia. Haleliwia.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Luc.

Gogoniant i ti, O Grist.

Bryd hynny: Yr oedd yr holl gasglwyr trethi a'r pechaduriaid yn nesáu at lesu i wrando arno. Ond yr oedd y Phariseaid a'r ysgrifenyddion yn grwgnach ymhlith ei gilydd, gan ddweud, "Y mae hwn yn croesawu pechaduriaid ac yn cydfwytia gyda hwy." A dywedodd ef y ddameg hon wrthynt: "Bwriwch fod gan un ohonoch chwi gant o ddefaid, a digwydd iddo golli un ohonynt; onid yw'n gadael y naw deg a naw yn yr anialdir ac yn mynd ar ôl y ddafad golledig nes dod o hyd iddi? Wedi dod o hyd iddi y mae'n ei gosod ar ei ysgwyddau yn llawen, yn mynd adref, ac yn gwahodd ei gyfeillion a'i gymdogion ynghyd, gan ddweud wrthynt, 'Llawenhewch gyda mi, oherwydd yr wyf wedi cael hyd i'm dafad golledig.' Rwy'n dweud wrthyich, yr un modd bydd mwy o lawenydd yn y nef am un pechadur sy'n edifarhau nag am naw deg a naw o rai cyfiawn nad oes arnynt angen edifeirwch. Neu bwriwch fod gan wraig ddeg darn arian, a digwydd iddi golli un darn; onid yw hi'n cynnau kannwyll ac yn ysgubo'r ty ac yn chwilio'n ddyfal nes dod o hyd iddo? Ac wedi dod o hyd iddo, y mae'n gwahodd ei chyfeillesau a'i chymdogion

ynghyd, gan ddweud, ‘Llawenhewch gyda mi, oherwydd yr wyf wedi cael hyd i’r darn arian a gollais.’ Yr un modd, rwy’n dweud wrthy, y mae llawenydd ymhlith angylion Duw am un pechadur sy’n edifarhau.”

Dyma Efengyl ein Gwaredwr.

Moliant i ti, O Grist.

Luc 15:1-10

Emyn yr Offrwm



O lesu, y ffordd ddigyfnewid
a gobaith pererin di-hedd,
O tyn ni yn gadarn hyd at
i ymyl diogelwch dy wedd;
dilea ein serch at y llwybrau
a’n gwnaeth yn siomedig a blin,
ac arwain ein henaid i’th geisio,
y ffordd anghymharol ei rhin.

O lesu’r gwirionedd anfeidrol,
tydi sydd yn haeddu mawrhad,
O gwared ni’n llwyr o’r anwiredd
sy’n gosod ar fywyd sarhad;
lladd ynom y blas at y geiriau
sy’n twyllo’r daearol ei fryd,
a derbyn ein moliant am olud
gwirionedd sy’n achub y byd.

**O Iesu, y bywyd tragwyddol,
ffynhonnell y nerth sy'n parhau,
rho inni dy weld yn dy allu
yn gwneud i eneidiau fywhau;
mae ynot ddiderfyn rasmusau
sy'n drech na gelyniaeth y byd:
moliannwn wrth gofio am fywyd
sy'n ras a thrugaredd i gyd.**

Geiriau

William Rhys Nicholas (1914-1996)

Cerddoriaeth | "Crugybar"

Alaw Gymreig, o "Moliant Seion" (1883)

Motét

Yr Argwlydd yw fy mugail; ni bydd eisiau arnaf, efe a wna i
mi orwedd mewn porfeydd gwelltog: efe a'm tywys gerllaw y
dyfroedd tawel. Efe a ddychwel fy enaid: efe a'm harwain ar hyd
llwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw.

Geiriau

Salm 23:1-3

Cerddoriaeth

Caradog Roberts (1878-1935)





Dan dy fendith wrth ymadael
y dymunem, Arglwydd, fod;
llanw'n calon ni â'th gariad
a'n geneuau ni â'th glod:
dy dangnefedd, dy dangnefedd, dy dangnefedd
dyro inni yn barhaus.

Am Efengyl gras a'i breintiau
rhoddwn ddiolch byth i ti;
boed i waith dy Ysbryd Sanctaidd
lwyddo fwyfwy ynom ni;
i'r gwirionedd, i'r gwirionedd, i'r gwirionedd
gwna ni'n ffyddlon tra bôm byw.

Geiriau

John Fawcett (1740-1817)


Cyfieithiad

William Griffiths (1777-1825)

Cerddoriaeth | "Caersalem"

Robert Edwards (1796-1862)

at the Eucharist



Musical setting

Communion Service in F, Herbert Sumsion (1899-1995)

Celebrant

The Canon Emeritus

Preacher

The Revd Dr John Prysor-Jones

Processional Hymn



Christ is made the sure foundation,
and the precious corner-stone,
who, the two walls underlying,
bound in each, binds both in one,
holy Sion's help for ever,
and our confidence alone.

All that dedicated city,
dearly loved by God on high,
in exultant jubilation
pours perpetual melody,
God the One, in Threefold glory,
singing everlastingly.

**To this temple, where we call thee,
come, O Lord of hosts, today;
with thy wonted loving-kindness,
hear thy people as they pray;
and thy fullest benediction
shed within its walls for ay.**

**Here vouchsafe to all thy servants
gifts of grace by prayer to gain;
here to have and hold for ever,
those good things their prayers obtain,
and hereafter, in thy glory,
with thy blessed ones to reign.**

**Laud and honour to the Father,
laud and honour to the Son,
laud and honour to the Spirit,
ever Three and ever One,
One in love, and One in splendour,
while unending ages run.**

Words

Seventh-century Latin

Translation

John Mason Neale (1818-1866)

Music | "Regent Square"

Henry Smart (1813-1879)

Sentence

"I long for your salvation, O God, and your law is my delight."

Collect

Let us pray.

O God, we beseech you, let your continual pity cleanse and defend your Church; and, because it cannot continue in safety without your succour, preserve it evermore by your help and goodness, through Jesus Christ our Saviour.
Amen.

Psalmody

Let my cry come before you, O God; give me understanding, according to your word.

Let my supplication come before you; deliver me, according to your promise.

My lips shall pour forth your praise, when you teach me your statutes.

My tongue shall sing of your promise, for all your commandments are righteous.

Let your hand be ready to help me, for I have chosen your commandments.

I long for your salvation, O God, and your law is my delight.

Let me live, and I will praise you, and let your judgments help me.

I have gone astray like a sheep that is lost; search for your servant, for I do not forget your commandments.

Psalm 119:169-176

Music

John Foster (1827-1925)

Reading

A reading from the Epistle of Saint Paul to the Ephesians.

Deary beloved: Remember that at one time you Gentiles by birth, called “the uncircumcision” by those who are called “the circumcision” – a physical circumcision made in the flesh by human hands – remember that you were at that time without Christ, being aliens from the commonwealth of Israel, and strangers to the covenants of promise, having no hope and without God in the world. But now in Christ Jesus you who once were far off have been brought near by the blood of Christ. For he is our peace; in his flesh he has made both groups into one and has broken down the dividing wall, that is, the hostility between us. He has abolished the law with its commandments and ordinances, so that he might create in himself one new humanity in place of the two, thus making peace, and might reconcile both groups to God in one body through the cross, thus putting to death that hostility through it.



So he came and proclaimed peace to you who were far off and peace to those who were near; for through him both of us have access in one Spirit to the Father.

Hear the word of life to the world.

Thanks be to God.

Ephesians 2:11-18

Gospel



∿ Alleluia. Alleluia. Alleluia. **R** Alleluia. Alleluia. Alleluia.

∿ Now in Christ Jesus you who once were far off have been brought near by the blood of Christ. **R** Alleluia. Alleluia.

Alleluia. ∿ There will be more joy in heaven over one sinner who repents than over ninety-nine righteous people who need no repentance. **R** Alleluia. Alleluia. Alleluia.

Grace and peace be with you.

And keep you in the love of Christ.

Listen to the Holy Gospel according to ✠ Saint Luke.

Glory to you, O Christ.

At that time: All the tax-collectors and sinners were coming near to listen to Jesus. And the Pharisees and the scribes were grumbling and saying, "This fellow welcomes sinners and eats with them." So he told them this parable: "Which one of you, having a hundred sheep and losing one of them, does not leave the ninety-nine in the wilderness and go after the one that is lost until he finds it? When he has found it, he lays it on his shoulders and rejoices. And when he comes home, he calls together his friends and neighbours, saying to them, 'Rejoice with me, for I have found my sheep that was lost.' Just so, I tell you, there will be more joy in heaven over one sinner who repents than over ninety-nine righteous people who need no repentance. Or what woman having ten silver coins, if she loses one of them, does not light a lamp, sweep the house, and search carefully until she finds it? When she has found it, she calls together her friends and neighbours, saying, 'Rejoice with me, for I have found the coin that I had lost.' Just so, I tell you, there is joy in the presence of the angels of God over one sinner who repents."

This is the Gospel of our Saviour.

Praise to you, O Christ.

Luke 15:1-10

Offertory Hymn



Praise the Lord, ye heavens, adore him!
Praise him, angels, in the height;
sun and moon, rejoice before him,
praise him, all ye stars and light.
Praise the Lord, for he hath spoken;
worlds his mighty voice obeyed:
laws, which never shall be broken,
for their guidance he hath made.

Praise the Lord, for he is glorious;
never shall his promise fail.
God hath made his saints victorious;
sin and death shall not prevail.
Praise the God of our salvation,
hosts on high, his power proclaim;
heaven and earth and all creation,
laud and magnify his name!

Worship, honour, glory, blessing,
Lord, we offer to thy name;
young and old, thy praise expressing,
join their Saviour to proclaim.
As the saints in heaven adore thee,
we would bow before thy throne;
as thine angels serve before thee,
so on earth thy will be done.

Words

Psalm 148

Paraphrase

Edward Osler (1798-1863)

Music | "Abbot's Leigh"

Cyril Vincent Taylor (1907-1991)

Motet

Sheep may safely graze and pasture,
in a watchful Shepherd's sight.
Those who rule with wisdom guiding
bring to hearts a peace abiding
bless a land with joy made bright.

Words

Salomon Franck (1659-1725)

Music

Johann Sebastian Bach (1685-1750)



Post-Communion Hymn



All for Jesus! all for Jesus!
This our song shall ever be;
for we have not hope nor Saviour
if we have not hope in thee.

**All for Jesus! thou wilt give us
strength to serve thee hour by hour:
none can move us from thy presence
while we trust thy love and power.**

**All for Jesus! at thine altar
thou wilt give us sweet content;
there, dear Saviour, we receive thee
in thy holy sacrament.**

**All for Jesus! thou hast loved us,
all for Jesus! thou hast died,
all for Jesus! thou art with us,
all for Jesus, glorified!**

**All for Jesus! all for Jesus!
This the Church's song shall be,
till at last the flock is gathered
one in love, and one in thee.**


Words

John Sparrow-Simpson (1859-1952)

Music | "All for Jesus"

John Stainer (1840-1901)

yn y Gosber ar Gân at Choral Evensong



Gosodiad yr Ymatebion | Setting of the Responses

Herbert Sumsion (1899-1995)

Gosodiad y Cantiglau | Setting of the Canticles

Gwasanaeth Hwyrrol yn G | Evening Service in G,

Charles Villiers Stanford (1852-1924)

Brawddeg Sentence

“Yr wyf yn dyheu am dy iachawdwriaeth, O Dduw, ac yn ymhyfrydu yn dy gyfraith.”

“I long for your salvation, O God, and your law is my delight.”

Emyn Hymn



Jesus, good above all other,
gentle child of gentle mother,
in a stable born our brother,
give us grace to persevere.

**Jesus, cradled in a manger,
for us facing every danger,
living as a homeless stranger,
make we thee our King most dear.**

**Jesus, for thy people dying,
risen Master, death defying,
Lord in heaven, thy grace supplying,
keep us to thy presence near.**

**Jesus, who our sorrows bearest,
all our thoughts and hopes thou sharest,
thou to us the truth declarest;
help us all thy truth to hear.**

Geiriau | Words

Percy Dearmer (1867-1936)

Cerddoriaeth | Music | "Quem pastores"

Carol Almaenaidd o'r 14eg ganrif | 14th century German carol

Salmyddiaeth Psalmody

It is a good thing to give thanks unto the Lord: and to sing
praises unto thy name O Most Highest,

To tell of thy loving-kindness early in the morning: and of thy
faithfulness in the night season,

Upon an instrument of ten strings and upon the lute: with the
sound of melody upon the harp.

For thou Lord hast made me glad through thy works: and I will
shout for joy because of thy handy-work.

O Lord how glorious are thy works: thy thoughts are very deep.

The dull of heart doth not consider this: and the fool doth not
understand it,

That, though the ungodly are green as the grass: and all the
workers of wickedness do flourish,



Yet shall they be destroyed for ever: but thou Lord art the Most Highest for evermore.

Codwn ar ein traed | We stand

Glory be to the Father, and to the Son: and to the Holy Ghost; as it was in the beginning, is now and ever shall be; world without end. Amen.

Salm | Psalm 92:1-8
Cerddoriaeth | Music
John Leman Rogers (1780-1847)

Llith o'r Hen Destament Lesson from the Old Testament

Here begins the twenty-second verse of the seventeenth chapter of the Book of Ezekiel.

Thus says the Lord God: I myself will take a sprig from the lofty top of a cedar; I will set it out. I will break off a tender one from the topmost of its young twigs; I myself will plant it on a high and lofty mountain. On the mountain height of Israel I will plant it, in order that it may produce boughs and bear fruit, and become a noble cedar. Under it every kind of bird will live; in the shade of its branches will nest winged creatures of every kind. All the trees of the field shall know that I am the Lord. I bring low the high tree, I make high the low tree; I dry up the green tree and make the dry tree flourish. I the Lord have spoken; I will accomplish it.

Here ends the First Lesson.

Ezekiel 17:22-24

Llith o'r Testament Newydd Lesson from the New Testament

Yma y mae yn dechrau chweched adnod ar hugain pedwaredd bennod yr Efengyl yn ôl Sant Marc.

Bryd hynny: Meddai Iesu, "Fel hyn y mae teyrnas Dduw: bydd dyn yn bwrw'r had ar y ddaear ac yna'n cysgu'r nos a chodi'r dydd, a'r had yn eginio ac yn tyfu mewn modd nas gŵyr ef. Ohoni ei hun y mae'r ddaear yn dwyn ffrwyth, eginyn yn gyntaf, yna tywysen, yna yd llawn yn y dywysen. A phan fydd y cnwd wedi aeddfedu, y mae'n bwrw iddi ar unwaith â'r cryman, gan fod y cynhaeaf wedi dod." Meddai eto, "Pa fodd y cyffelybwn deyrnas Dduw, neu ar ba ddameg y cyflwynwn

hi? Y mae'n debyg i hedyn mwstard; pan heuir ef ar y ddaear, hwn yw'r lleiaf o'r holl hadau sydd ar y ddaear, ond wedi ei hau, y mae'n tyfu ac yn mynd yn fwy na'r holl lysiau, ac yn dwyn canghennau mor fawr nes bod adar yr awyr yn gallu nythu dan ei gysgod." Ar lawer o'r fath ddamhegion yr oedd ef yn llefaru'r gair wrthynt, yn ôl fel y gallent wrando; heb ddameg ni fyddai'n llefaru dim wrthynt. Ond o'r neilltu byddai'n egluro popeth i'w ddisgyblion ei hun.

Yma y terfyn yr Ail Lith.

Translation

At that time: Jesus said, "The kingdom of God is as if someone would scatter seed on the ground, and would sleep and rise night and day, and the seed would sprout and grow, he does not know how. The earth produces of itself, first the stalk, then the head, then the full grain in the head. But when the grain is ripe, at once he goes in with his sickle, because the harvest has come." He also said, "With what can we compare the kingdom of God, or what parable will we use for it? It is like a mustard seed, which, when sown upon the ground, is the smallest of all the seeds on earth; yet when it is sown it grows up and becomes the greatest of all shrubs, and puts forth large branches, so that the birds of the air can make nests in its shade." With many such parables he spoke the word to them, as they were able to hear it; he did not speak to them except in parables, but he explained everything in private to his disciples.

Marc | Mark 4:26-34

Gweddi Gasgl y Dydd **Collect of the Day**

ODduw, erfyniwn fod i'th dosturi gwastadol lanhau ac amddiffyn dy Eglwys; a chan na all hi barhau mewn diogelwch heb dy nodded di, cadw hi byth trwy dy gymorth a'th ddaioni; trwy Iesu Grist ein Gwardwr. Amen.

Translation

O God, we beseech you, let your continual pity cleanse and defend your Church; and, because it cannot continue in safety without your succour, preserve it evermore by your help and goodness, through Jesus Christ our Saviour. Amen.

Anthem

O for a closer walk with God,
A calm and heavenly frame;
A light to shine upon the road
That leads me to the Lamb!

Return, O holy dove, return,
Sweet messenger of rest;
I hate the sins that made thee mourn,
And drove thee from my breast.

So shall my walk be close with God,
Calm and serene my frame;
So purer light shall mark the road
That leads me to the Lamb.

Geiriau | Words

William Cowper (1731-1800)

Cerddoriaeth | Music

Charles Villers Stanford (1852-1924)

Eryn Hymn



Ye that know the Lord is gracious,
ye for whom a corner-stone
stands, of God elect and precious,
laid that ye may build thereon,
see that on that sure foundation
ye a living temple raise,
towers that may tell forth salvation,
walls that may re-echo praise.

Living stones, by God appointed
each to his allotted place,
kings and priests, by God anointed,
shall ye not declare his grace?
Ye, a royal generation,
tell the tidings of your birth,
tidings of a new creation
to an old and weary earth.

Tell the praise of him who called you
out of darkness into light,
broke the fetters that enthralled you,
gave you freedom, peace and sight:
tell the tale of sins forgiven,
strength renewed and hope restored,
till the earth, in tune with heaven,
praise and magnify the Lord.


Geiriau | Words

Cyril Argentine Alington (1872-1955)

Cerddoriaeth | Music | "Rustington"

Charles Hubert Hastings Parry (1848-1918)

Hysbys Notices



Duw a Dysgwyr

Mae gwasanaeth misol newydd i unrhyw un sy'n dysgu Cymraeg yn dechrau yn y gadeirlan ddydd Llun 17eg Mehefin. Gwasanaeth cymun yn Gymraeg yw "Duw a Dysgwyr", ond gyda chymorth geirfa ac ynganu yn nhrefn y gwasanaeth. Yr Esgob David Morris fydd yn cymryd y gwasanaeth, ac fel dysgwr ei hun, wedi ymgymryd â'r her o wneud yr ewcharist yn Gymraeg am y tro cyntaf. Yn dilyn y gwasanaeth bydd cyfle i ymarfer siarad Cymraeg dros ginio ysgafn. Croeso i bawb, boed yn siaradwr iaith gyntaf rhugl neu'n ddechreuwr.

Ordination

Bydd ein is-ganon, Y Parchg Josie Godfrey, yn cael ei ordeinio'n offeiriad ar ddydd Sadwrn 29 Mehefin am 11am. Byddai Josie wrth ei bodd yn gweld cymaint o bobl â phosibl o deulu'r gadeirlan sydd wedi bod gyda hi ar ei thaith i'r weinidogaeth ordeiniedig dros y 12 mis diwethaf. Mae croeso i bawb i'r gwasanaeth - dim angen tocynnau, ond os ydych yn bwriadu bod yno, a fydddech cystal ag anfon e-bost at mereridmorganwilliams@cinw.org.uk fel bod gennym syniad o'r niferoedd ar gyfer seddi ac arlwyio wedyn. Cadwch Josie yn eich gweddïau wrth iddi baratoi i ddechrau ei gweinidogaeth offeiriadol.

Cinio Dewch a Rhannu

Dyddiad i'ch dyddiadur: bydd y cinio dewch a'r rhannu nesaf yn dilyn y Choral Holy Eucharist am 11am ddydd Sul 30 Mehefin. Y gwasanaeth hon fydd y tro cyntaf i'r Parchg Josie Godfrey lywyddu'r cymun yn dilyn ei hordeiniad y diwrnod cynt - dewch draw i'w chefnogi. Siaradwch â Jane Coutts am ba fwyd sydd angen dod.

Gosber ar Gân

Ni fydd Gosber ddydd Llun a dydd Mawrth yr wythnos hon oherwydd fydd yna recordio yn y Gadeirlan.

Datganiadau Cerdd Dydd Iau

Pob dydd Iau
1.15pm am 45 munud

20 Mehefin | Simon Lawford | Organ

27 Mehefin | Triawd Baróc

Duw a Dysgwyr

A new monthly service for anyone learning Welsh starts at the cathedral on Monday 17th June. "Duw a Dysgwyr" is a communion service in Welsh, but with vocabulary and pronunciation help in the order of service. Bishop David Morris will be taking the service, and as a learner himself, has taken on the challenge of doing the eucharist in Welsh for the first time. The service will be followed by chance to practise speaking Welsh over a light lunch. All welcome, whether a fluent first language speaker or a beginner.

Ordination

Our minor canon, The Rev'd Josie Godfrey, will be ordained as a priest on Saturday 29th June at 11am. Josie would love to see as many people as possible from the cathedral family who've been with her on her journey into ordained ministry over the last 12 months. Everyone is welcome to the service - no tickets needed, but if you plan to be there, could you email mereridmorganwilliams@cinw.org.uk so we have an idea of numbers for seating and catering afterwards. Please keep Josie in your prayers as she prepares to start her priestly ministry.

Bring and Share Lunch

Date for your diary: the next bring and share lunch follows the 11am Choral Holy Eucharist on Sunday 30th June. This service will be the first time Revd Josie

Godfrey presides at communion following her ordination the previous day - please do come along and support her. Talk to Jane Coutts about what food needs bringing.

Choral Evensong

There will be no Evensong on Monday and Tuesday this week due to recording in the Cathedral.

Thursday Recitals

Every Thursday
1.15pm for 45 minutes

20 June | Simon Lawford | Organ

27 June | Baroque Trio

Yr wythnos This week

Dydd Llun | Monday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Mawrth | Tuesday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Mercher | Wednesday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Iau | Thursday

12.30pm Cymun | Eucharist

1.15pm Datganiad | Recital

2.00pm | Eglwys y Groes Cymun |
Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Gwener | Friday | Alban

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Sadwrn | Saturday

12.30pm Cymun | Eucharist

16 Mehefin | Y Trydydd Sul wedi'r Drindod

16 June | The Third Sunday after Trinity

8.15am Holy Eucharist

9.15am Cymun Bendigaid ar Gân

Cymun Sant Dogfan, Evans; Cenwch lafar
gân i'r Arglwydd Dduw, Elwyn-Edwards

11.00am Choral Holy Eucharist

Communion Service in C & F, Stanford;
Beati quorum via, Stanford

3.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Rose; Gwasanaeth
Hwyl yn A | Evening Service in A,
Stanford; They that go down to the sea in
ships, Sumsion

*Darllenwch Buchedd Bangor ar gyfer
manyllion cerddoriaeth yn ystod yr wythnos
| See Buchedd Bangor for music details
during the week*

Ein gweddi Our prayers

Yn glâf The sick Andrea Foggarty; Peter
Lewis, offeiriad | priest; Dmitro; Ivan;
John McGovern; Swetlana; Bogdan; Nita
Edwards; Rhian Wynne; Josie; Abin; Alex;
Jinesh; John Watkin Jones; Helen Lincoln;
Bill Lovelock

**A fu farw'n diweddar The recently
departed** Josephine Darnell; Garry Barr;
Behice Yücel Mankan; Omanchi Agbaji;
Grace Bush; Ritchard Hudson

Gŵyl goffa Year's mind Arthur Brown
(21); Jonathan Lincoln (22)



Eglwys Gadeiriol ac Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor

Rhif elusen 1158340

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwmo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copïau print bras o'r llyfr hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio arlein, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar sianel YouTube y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Daw'r drefn a'i chynnwys o **Llyfr Gweddî Gyffredin (1662 ac 1984)**. Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr (1850)** a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary (2019)** a **The Revised Psalter (1963)**.

The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Charity number 1158340

Safeguarding

Safeguarding children and adults at risk is vital, and we are committed to fostering an environment where everyone is able to worship and participate in the life of Saint Deiniol's Cathedral in safety. If you have any concerns, please raise them immediately with a member of the Cathedral team.

Accessibility

A hearing loop is in use – please set hearing aids to the T setting.

Large print copies of this booklet are available from the stewards.

Lavatories are located at the east end of the Cathedral, through the door to the left of the Quire screen.

If we need to evacuate the Cathedral in an emergency, please remain seated and follow the directions of the stewards.

Sustainability and permissions

We use 100% recycled, low carbon dioxide paper.

Many of our services are streamed online, and the recording made available thereafter on the Cathedral's YouTube channel. An official photographer may be on duty. Your attendance constitutes your consent to be included in any filming, photographing, audio recording or broadcast. If you do not wish a photograph of you or a child in your care to be used by the Cathedral, please speak to a member of the Cathedral team.

Acknowledgements

Material in this order of service is reproduced under the CLL 280874. The form and content of the service are taken from **The Book of Common Prayer (1662 and 1984)**. The lessons and Welsh-language psalmody are based on **The New Revised Standard Version of the Bible** and **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. The refrain of the Welsh-language psalmody is from Nicander, **Y Psallwyr (1850)**, and the English-language psalmody is that of **The Saint Helena Breviary (2019)** and **The Revised Psalter (1963)**.